# Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **13 Mehefin 2001** |
| **Pwnc y Papur:** | **Polisi Caffael y Cynulliad Cenedlaethol** |
| **Rhif y Papur:** | **EOC-05-01(p.1)** |

## Y cais a wnaed

1. I ddarparu diweddariad ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â gorfodi goblygiadau cyfartaledd y Cynulliad trwy ei bolisi caffael, yn dilyn y papur a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 21 Mawrth 2001 (EOC-03-01(p.7)).

## Yr Ymateb

2. Yn fy mhapur blaenorol, nodwyd bod yr Uned Gaffael yn nodi'r posibilrwydd o ddefnyddio prosesau caffael cyhoeddus yng Nghymru er mwyn hybu amcanion cymdeithasol ac economaidd o fewn cyd-destun cyfraith yr UE a chyfraith ryngwladol mewn perthynas â chaffael.

3. Mae Adrannau 48 a 120 Deddf Llywodraeth Cymru yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad i wneud trefniadau i gynnal ei fusnes gan roi ystyriaeth briodol i egwyddor cyfle cyfartal i bawb. Derbynnir y dylai strategaethau a mentrau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach a gefnogir gan y Cynulliad gael eu hintegreiddio'n well i bolisi caffael yn amodol ar y cyfyngiadau a osodir gan gyfraith y Gymuned Ewropeaidd, a Chytundeb Caffael Llywodraethau Corff Masnachu'r Byd.

4. Pan fydd y Cynulliad yn dyfarnu contractau, nid yw am roi cefnogaeth anuniongyrchol i gyflenwyr nad ydynt yn glynu wrth werthoedd craidd y Cynulliad. Mae'n rhesymol disgwyl y dylai contractau'r Cynulliad gael eu dyfarnu i gyflenwyr sy'n cynnig cyfle cyfartal i'r gymuned gyfan. Trwy ymrwymiad i werth gorau am arian mae'n rhaid i'r Cynulliad ysgogi cyflenwyr i argymell atebion o ansawdd sy'n cynnwys gwerthoedd craidd y Cynulliad. Ni ddylai unrhyw gyflenwr gael mantais gystadleuol oherwydd eu bod wedi cadw costau'n rhy isel wrth dorri corneli trwy beidio â chefnogi gwerthoedd craidd y Cynulliad. Mae Julia Douch, pennaeth Uned Gaffael y Cynulliad yn cyfarfod â chynrychiolwyr o Ogledd Iwerddon, yr Alban a Swyddfa Masnach y Llywodraeth yn Llundain ar 22 Mehefin 2001 er mwyn asesu'r ffordd orau o integreiddio strategaethau a mentrau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i'r polisi caffael.

5. Yn y papur blaenorol, nodais y byddai'r Uned Gaffael yn datblygu Cod Ymarfer Gwirfoddol ac y bydd cyflenwyr yn cael eu gwahodd i ddilyn y cod hwn. Bydd cyflenwyr sy'n cytuno i ddilyn yr egwyddorion yn y cod yn gallu cofrestru ar gronfa ddata cyflenwyr y Cynulliad. Mae'r Uned Gaffael wedi cynhyrchu drafft cyntaf o'r Cod Ymarfer Gwirfoddol, a bydd cynrychiolwyr o Uned Polisi Cyfartaledd ac Uned Datblygu Cynaliadwy y Cynulliad yn cyfarfod gyda'r Uned Gaffael ar 13 Mehefin 2001 i'w drafod. Byddant yn ystyried cynnwys y canllawiau drafft yn ogystal â thrafod i ba raddau y bydd angen cynnwys cyrff allanol wrth fireinio'r canllawiau, yn cytuno ar amserlen ac yn amlinellu cyfrifoldebau ar gyfer pob un o'r grwpiau sydd â diddordeb.

6. Pan fydd y newidiadau i bolisi caffael y Cynulliad wedi eu cwblhau, cyngor y Cwnsler Cyffredinol yw y dylid ystyried a fydd angen i gwnsler arbenigol ailddrafftio holl ddogfennau contract safonol y Cynulliad. Mae hyn yn ganlyniad i natur gymhleth cyfreithiau caffael a'r ymagwedd arloesol y mae'r Cynulliad yn bwriadu ei fabwysiadu. Ein cynllun ni fyddai i'r contractau safonol fod ym meddiant y cwnsler arbenigol i'w hystyried ganol mis Gorffennaf.

7. Mae'r gwaith o ddrafftio canllawiau *'Ennill Busnes'* ar gyfer cyflenwyr wedi dechrau. Nid yw wedi ei gymeradwyo gan Swyddfa'r Cwnsler, ond y gobaith yw y bydd y broses wedi ei chwblhau erbyn diwedd mis Awst 2001. Bydd hyn yn ymgorffori canllawiau'r Cynulliad ar arferion gorau mewn materion amgylcheddol a'r canllawiau a ddosbarthir i Fusnesau Bach a Chanolig sy'n nodi manylion ein polisïau a gweithdrefnau caffael. Bydd y canllawiau diwygiedig yn adlewyrchu ymrwymiad y Cynulliad i strategaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach.

8. Cynhaliwyd cyfarfodydd cychwynnol mewn perthynas â datblygu *Ennill Busnes*, tudalen yr Uned Gaffael ar y We, a datblygu cronfa ddata cyflenwyr sydd wedi cytuno i ddilyn y Cod Ymarfer Gwirfoddol. Bydd swyddogion y Cynulliad sy'n chwilio am gyflenwyr yn gallu mynd at y gronfa ddata ar y rhyngrwyd. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y dudalen ar y we a'r gronfa ddata cyflenwyr wedi eu cwblhau erbyn 1 Hydref 2001 yn unol â'n hamserlen.

9. Mae drafft diweddaraf y Cod Ymarfer Gwirfoddol wedi ei amgáu yn

**Atodiad A.**